



Cartrefi i Wcráin

Canllawiau i Westeiwyr gan

Gyngor Bwrdeistref Sirol

Caerffili



Croeso a Ffynonellau Cyngor

Diolch am gofrestru eich diddordeb i noddi teulu neu unigolyn sy'n cyrraedd o Wcráin. Rydym yn gwerthfawrogi popeth rydych chi'n ei wneud i helpu'r ymdrech ddyngarol ac rydym yma i'ch helpu a'ch cefnogi. Mae Cyngor Caerffili am sicrhau bod gennych chi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i'ch helpu yn eich rôl fel gwesteigr.

Gallwch ddefnyddio'r e-bost hwn ar gyfer unrhyw ymholiadau neu gymorth sydd ei angen:
CymorthWcrain@caerffili.gov.uk

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu **Llinell Gymorth Wcráin Cenedl Noddfa Cymru** a fydd yn gweithredu rhwng 9am a 7pm, 7 diwrnod yr wythnos. Gall gwesteigr a'u gwesteion ddefnyddio hwn:

Freephone within UK:
0808 175 1508

From Outside the UK:
020 4542 5671
+44 (0)20 4542 5671

Mae cyngor ar gael i'ch gwesteion ar amrywiaeth o faterion y gallai fod ganddynt bryderon uniongyrchol yn eu cylch ar wefan Cenedl Noddfa. Mae'r wefan hon wedi'i chyfieithu. Mae adran i gefnogi Wcráin ac opsiwn i ddewis iaith ar y dudalen flaen:

[Noddfa | Wcráin \(llyw.cymru\)](#)

Cyflwyniad

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth am y Cynllun Cartrefi i Wcráin ond bydd hefyd yn ddefnyddiol i aelodau teuluoedd gwladolion Wcráin sy'n darparu cymorth o dan Gynllun Teuluoedd o Wcráin. Bwriad y wybodaeth yw ategu'r canllawiau cyngor sydd ar gael gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys gwybodaeth sy'n benodol i Gaerffili a'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol.

Cynllun Cartrefi i Wcráin

Cwestiynau Cyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig:

<https://www.gov.uk/guidance/homes-for-ukraine-scheme-frequently-asked-questions>

Cynllun Teuluoedd o Wcráin

Cwestiynau Cyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig: <https://settled.org.uk/ukraine-family-scheme-frequent-asked-questions/>

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd swyddog o Gyngor Caerffili mewn cysylltiad â chi i drafod ymweld â'ch eiddo i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y cynllun Cartrefi i Wcráin yn unol â chanllawiau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd angen i'r Cyngor hefyd drefnu gwiriad DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) a gwiriad cofnodion gwasanaethau cymdeithasol, ar gyfer pob oedolyn sy'n byw yn eich cartref. Ni fydd cost i unrhyw un o'r gwiriadau hyn i chi a bydd pob un yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Croesawu Gwesteion

Gobeithio y bydd Cwestiynau Cyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi rhywfaint o arweiniad i chi ar drefnu eich cartref i dderbyn gwesteion. Rydym wedi darparu rhestr wirio ar ddiwedd y canllaw hwn a allai fod yn ddefnyddiol i chi hefyd.

Rydym yn sylweddoli y gall fod rhai costau sefydlu cychwynnol er mwyn i chi sicrhau bod eich cartref yn addas ac felly byddwn yn dyrannu taliad cychwynnol o £350 i chi i'ch helpu i dalu unrhyw gostau annisgwyl.

Bydd hwn ar gael ar ôl i chi gael eich paru â gwestai, neu westeion, a'u bod wedi'ch cyrraedd. Rydym yn gwybod efallai na fydd rhai trefniadau lletya yn digwydd ac felly byddwn yn darparu'r taliad cychwynnol i chi cyn gynted â phosibl ar ôl i'ch gwesteion gyrraedd. Bydd hyn yn ychwanegol at y taliad 'diolch' misol sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer pob gwesteiwr.

Mae'n siŵr y byddwch wedi ystyried yr hyn y byddwch yn gallu ei ddarparu i'ch gwesteion ac y byddwch wedi bod yn paratoi cyn iddynt gyrraedd. Wrth drefnu eich cartref byddem yn eich cynghori i edrych arno 'drwy lygaid dieithryn' ac, yn benodol, yn meddwl am unrhyw beryglon y gallech chi fod wedi arfer â nhw ond a allai beri risg i unrhyw un arall, yn enwedig plant.

Diogelu

Bydd swyddog o'r Cyngor mewn cysylltiad i drefnu gwiriad DBS ar gyfer pawb dros 16 oed sy'n byw yn eich cartref. Os hoffech wybod ychydig mwy am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, mae gan wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig wybodaeth ddefnyddiol am beth mae gwiriadau'n ei olygu a pha ddogfennau sydd eu hangen. Pan fyddwn yn cysylltu â chi, byddwn yn esbonio hyn oll i chi.

<https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service/about>

<https://www.gov.uk/government/publications/dbs-identity-checking-guidelines>

Bydd eich e-bost cychwynnol gan Gyngor Caerffili wedi cynnwys canllawiau ar ba ddogfennau sydd eu hangen ar gyfer gwiriad DBS. Bydd swyddog o'r Cyngor yn gwirio eich dogfennau gwreiddiol pan fydd yn ymweld. Bydd angen darparu'r dogfennau gofynnol ar gyfer pob person dros 16 oed ar yr aelwyd.

Yn ogystal â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i chi y bydd gwiriadau'n cael eu cynnal ar **bob** preswlydd yn eich cartref yn erbyn systemau mewnol y gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y ffurflen casglu gwybodaeth ar gyfer y gwiriad hwn, DBS, eiddo a'r holl wiriadau eraill wedi'u hanfon atoch yn yr e-bost cychwynnol gan y Cyngor. A fyddech cystal â sicrhau, pan fyddwch yn ei dychwelyd, ei bod yn cynnwys manylion pawb sy'n byw yn eich eiddo. A fyddech cystal â'i dychwelyd i

CymorthWcrain@caerffili.gov.uk

Hoffem i chi, ac unrhyw oedolyn yn eich cartref, gwblhau rhywfaint o hyfforddiant diogelu ar-lein os yn bosib. Dyma'r ddolen ar gyfer y cwrs byr hwn, defnyddiwch y botwm MEWNGOFNODI FEL YMWELYDD ar waelod chwith y dudalen:

<https://learning.wales.nhs.uk/course/view.php?id=2555>

Archwiliadau Cartref

Bydd aelod o staff o'r Cyngor yn trefnu i ymweld â'ch eiddo a chynnal archwiliad yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae'r canlynol yn y canllawiau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig:

Beth sydd angen i mi ei wneud i sicrhau bod fy nghartref yn addas ar gyfer fy ngwestai?

Bydd pob llety yn wahanol ac er nad oes disgwyliad penodol, mae angen i'ch llety fod yn rhydd o beryglon iechyd a diogelwch difrifol. Dylech sicrhau bod eich cartref yn ddiogel i'ch gwesteion a'i fod mewn cyflwr addas. Dylech hefyd ystyried faint o bobl y gallwch eu lletya fel bod digon o le ganddynt. Ni ddylai dau berson fod mewn un ystafell oni bai eu bod: yn oedolion sy'n bartneriaid sy'n cyd-fyw; rhiant a phlentyn; dau frawd neu ddwy chwaer os ydynt dros 10 oed; dau frawd neu chwaer waeth

beth fo'u rhyw os ydynt o dan 10 oed. Ni ddylai unigolion nad oeddent yn adnabod ei gilydd cyn hyn rannu'r un ystafell.

Yn ychwanegol at hyn, gofynnwn fod y llety:

- yn cael ei gadw'n lân ac mewn cyflwr rhesymol.
- â digon o le yn y gegin a'r ystafell ymolchi.
- â mynediad i ddŵr yfed.
- â synhwyrdd mwg sy'n gweithio ar bob llawr o'r eiddo a rhagofalon diogelwch tân eraill sy'n addas ar gyfer yr adeilad e.e. drysau tân neu lwybrau dianc fel y bo'n briodol (rhagor o wybodaeth am [wneud cartref yn ddiogel rhag tân](#);
- â synhwyrdd carbon monocsid sy'n gweithio mewn unrhyw ystafell sy'n cynnwys offer llosgi tanwydd solet (e.e., tân glo, stôf llosgi coed).
- â digon o wres i gadw'r eiddo ar dymheredd cyfforddus.
- ag offer nwy, ffitiadau a ffliwiau diogel a bod archwiliad Diogelwch Nwy wedi'i gynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gweler [rhagor o wybodaeth](#));
- â thrydan diogel sy'n gweithio, y gall trydanwr cymwys helpu ag ef os ydych yn ansicr.
- bron yn gyfan gwbl rydd o leithder neu lwydni.
- â drysau a ffenestri ar lefel mynediad sy'n cloi'n iawn.
- yn hawdd ac yn ddiogel i symud o gwmpas ynddo, heb risiau rhy serth a allai achosi niwed.

Yn ogystal, efallai yr hoffech ystyried grŵp oedran eich gwesteion a sicrhau eich bod wedi ystyried unrhyw risgiau posibl, er enghraifft pwll heb ei orchuddio neu dân heb ei warchod. Os ydych yn croesawu plant gyda'u rhieni, yna cyfrifoldeb y rhiant yw eu diogelwch nhw, fodd bynnag, efallai y byddwch am edrych ar beryglon yn eich cartref cyn iddynt gyrraedd. Efallai yr hoffech ystyried a oes gennych anifeiliaid anwes neu a

yw eich gwesteion yn dod ag anifeiliaid anwes i'ch cartref ac unrhyw risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â hyn.

Mater i chi fydd penderfynu ar unrhyw reolau ynghylch ysmegu yn eich cartref ac efallai y byddwch am drafod hynny gyda gwestai os ydynt yn ysmegu, neu roi gwybod iddynt am unrhyw drefniadau yr ydych yn fodlon eu gwneud os ydych chi'n ysmegu.

Cymorth ariannol

Bydd y Cyngor yn cael gafael ar gyllid ychwanegol i gefnogi'r rhai sy'n cyrraedd o dan y 'Cynllun Cartrefi i Wcráin', ond nid ar gyfer 'Cynllun Teuluoedd o Wcráin'. Yn y camau cychwynol byddwn yn darparu lwfans sefydlu o £350 i'ch helpu i dalu unrhyw gostau nas rhagwelwyd. Bydd y Cyngor hefyd yn gweinyddu taliadau 'diolch' Llywodraeth y Deyrnas Unedig i westeiwyr y byddwch yn eu derbyn fesul mis fel ôl-daliadau ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd. Nid yw'n glir eto a fydd y taliad hwn yn dod i ben ar ôl y cyfnod cyntaf o ddeuddeg mis, fodd bynnag, byddwn yn siŵr o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

Bydd angen i ni gael manylion eich cyfrif banc i'n galluogi i brosesu'r taliadau hyn i chi. Byddwn yn anelu at wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl i'ch gwesteion gyrraedd. **Rhaid i chi roi gwybod i ni** os bydd arhosiad eich gwesteion yn eich eiddo yn dod i ben neu eu bod yn gwneud trefniadau llety amgen. **Bydd y Cyngor yn hawlio unrhyw ordaliad yn ôl wedi i'ch gwesteion adael.**

Dyma'r canllawiau ar wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig:

- Ni ddylech godi unrhyw rent. Rydym yn gwerthfawrogi haelioni pobl ac yn gwybod y bydd costau'n gysylltiedig â helpu, ac felly rydym yn cynnig taliad 'diolch' dewisol o £350 y mis i bobl sy'n gallu darparu ar gyfer un neu fwy o aelwydydd (yn amodol ar y llety sydd ganddynt).
- Mae'r taliad 'diolch' wedi'i gyfyngu i **un taliad fesul cyfeiriad preswyl**. Byddwch yn parhau i dderbyn taliadau cyhyd â'ch bod yn noddï rhywun ac am hyd at 12 mis. Bydd y taliad hwn yn cael ei wneud mewn ôl-daliadau.
- Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sicrhau nad yw 'taliadau diolch' yn effeithio ar hawl i fudd-daliadau a byddant yn parhau i fod yn ddi-dreth. Cyn

tal, bydd gwiriadau'n cael eu cynnal a fydd yn cynnwys ymweliad â'ch cartref.

Bydd swyddog o Gyngor Caerffili yn trefnu taliad arian parod i'ch gwesteion i'w cefnogi tra bod unrhyw geisiadau am fudd-daliadau yn cael eu prosesu. Bydd hwn yn swm cychwynnol o £300 y pen mewn arian parod. Noder nad oes disgwyl i'ch gwesteion drosglwyddo unrhyw ran o'r arian hwn i chi i dalu am eich treuliau. Bydd gwesteion yn gallu gwneud cais am fudd-daliadau fel Credyd Cynhwysol.

Mae gan Wefan Cenedl Noddfa adran ar gyfer dyfodiaid o Wcráin ac efallai y bydd rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol yno i'ch gwesteion ar faterion fel cyllid, budd-daliadau, iechyd, addysg, diogelwch personol, a chyfraith mewnfudo. Mae'r wefan wedi'i chyfieithu i Wcreineg.

[Noddfa | Wcráin \(llyw.cymru\)](#)

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i Gyngor Caerffili am ddyddiadau cyrraedd eich gwesteion fel y gallwn drefnu unrhyw daliadau i chi a'ch gwesteion.

Bydd y Cyngor hefyd yn darparu gliniadur i'ch gwestai i sicrhau bod ganddynt gyswllt – cysylltwch â ni ar CymorthWcrain@caerffili.gov.uk i roi gwybod i ni pan fydd eich gwestai'n cyrraedd ac os oes angen gliniadur a/neu ffôn symudol arnynt.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn darparu cyllid ar gyfradd o £10,500 y pen, i dalu am gymorth ailsefydlu, a'i fwriad hefyd yw talu costau iechyd, am y flwyddyn gyntaf, i gefnogi teuluoedd i ailadeiladu eu bywydau ac integreiddio'n llawn i gymunedau. Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi manylu a fydd cyllid yn parhau y tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf.

Darperir cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau addysg i blant teuluoedd sy'n cyrraedd o Wcráin, unwaith eto am y flwyddyn gyntaf i ddechrau, fesul disgybl ar gyfer y tri chyfnod addysg ar y cyfraddau blynyddol canlynol:

- blynyddoedd cynnar (2 i 4 oed): £3,000
- cynradd (5 i 11 oed): £6,580
- uwchradd (11 i 18 oed): £8,755.

Mae hyn yn cynnwys cymorth i blant ag anghenion addysgol arbennig (AAA).

Mae'r cyllid at ddefnydd y Cyngor i ddarparu cymorth ailsefydlu a gellir ei ddefnyddio ar gyfer pethau fel cymorth addysg, gwersi ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill), hyfforddiant, darparu cymorth i sefydlu tenantiaeth ac ati.

Cefnogi Gwesteion

Pan fydd eich gwestai'n cyrraedd o Wcráin, bydd angen cymorth arnynt i fynd i'r afael â'r meysydd canlynol ar fyrder:

- Cofrestru gyda meddyg teulu
- Trefnu unrhyw feddyginiaeth os oes angen
- Hawlio budd-daliadau nawdd cymdeithasol a chael Rhif Yswiriant Gwladol
- Trefnu trwydded breswyllo fiometrigr
- Agor cyfrif banc
- Cysylltu â Chyngor Caerffili i drefnu cymorth ariannol wrth aros am fudd-daliadau
- Cysylltu â Chyngor Caerffili os oes angen gliniadur neu ffôn symudol ar eich gwestai
- Cofrestru gyda deintydd
- Gwasanaethau gofal plant ac addysg

Mae manylion gwasanaethau ac asiantaethau penodol Caerffili i'w gweld isod yn adran Gwybodaeth Leol Caerffili.

Os oes angen cymorth arnoch i drefnu unrhyw un o'r gwasanaethau hyn, cysylltwch â Chyngor Caerffili ar yr e-bost hwn a byddwn yn trefnu cymorth:

CymorthWcrain@caerffili.gov.uk

Gwybodaeth Leol Caerffili



Ysgolion

Defnyddiwch y ddolen hon am wybodaeth am ysgolion yng Nghaerffili:

www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/Schools?lang=cy-gb

Iechyd

Defnyddiwch y ddolen hon i ddod o hyd i feddygfa yn eich ardal a chefnogi eich gwestai i gofrestru:

<https://www.wales.nhs.uk/ourservices/directory/aneurinbevanuniversityhealthboard/gps>

Defnyddiwch y ddolen hon ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghaerffili:

www.caerphilly.gov.uk/Services/Services-for-adults-and-older-people/Mental-health?lang=cy-gb

Defnyddiwch y ddolen hon am restr o ddeintyddion yng Nghaerffili a'r cyffiniau:

<https://www.wales.nhs.uk/ourservices/directory/aneurinbevanuniversityhealthboard/dentists>

Gwneud Cais am Fudd-daliadau

Dyma wybodaeth am fudd-daliadau a ddarperir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig:

Mae gan y Deyrnas Unedig system les sydd wedi'i chynllunio i helpu'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol, neu sydd ag anghenion penodol. Bydd pawb o Wcráin sy'n dod i'r wlad o dan y cynllun yn gallu chwilio am waith a chael swydd.

Bydd eich Canolfan Byd Gwaith leol yn gallu eich helpu i ddarganfod pa fudd-daliadau y gallai eich gwestai eu cael. Gall hyn gynnwys:

- Credyd Cynhwysol – taliad i bobl oedran gweithio, i helpu gyda'ch costau byw os ydych ar incwm isel. Gallech fod yn gweithio (gan gynnwys bod yn hunangyflogedig neu'n rhan amser) neu gallech fod yn ddi-waith.
- Credyd Pensiwn - arian ychwanegol i helpu gyda'ch costau byw os ydych dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth sef 66 oed yn y Deyrnas Unedig ac ar incwm isel.

- Budd-daliadau anabledd – arian ychwanegol i helpu gyda chostau ychwanegol i'r rhai sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor neu anabledd.
- Lwfans Gofalwr – arian ychwanegol os ydych yn gofalu am rywun am o leiaf 35 awr yr wythnos.
- Budd-dal Plant – arian ychwanegol i helpu gyda'r gost o fagu plentyn.

Dyma ddolen ar gyfer Canolfannau Gwaith yng Nghaerffili:

<https://www.jobcentreguide.co.uk/caerphilly-jobcentre>

Trwydded Breswyllo Fiometrig

Mae trwydded breswyllo fiometrigr yn brawf o dystiolaeth o'ch hawl i fyw, gweithio ac astudio yn y Deyrnas Unedig. Gellir defnyddio hwn fel prawf adnabod wrth agor cyfrif banc neu rentu eiddo. Mae'r sglodyn electronig yn cadw gwybodaeth fel enw, dyddiad geni a man geni. Bydd eich ffotograff, olion bysedd, a'ch statws mewnfudo arno hefyd.

Gweithio yng Nghymru

Bydd llawer o Wcraniaid am weithio a chael yr hawl i weithio cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd y Deyrnas Unedig. Gall Gyrfa Cymru helpu pobl i gynllunio eu gyrfa, paratoi i gael swydd, a dod o hyd i'r prentisiaethau, y cyrsiau a'r hyfforddiant cywir a gwneud cais amdanynt. Mae rhagor o wybodaeth yma: <https://gyrfacymru.llyw.cymru/>

Trafnidiaeth

Cliciwch y ddolen hon am fanylion ynglŷn â theithio am ddim i bobl sy'n dod o

Wcráin: <https://llyw.cymru/cymru-yn-cynnig-teithio-am-ddim-ar-drenau-i-ffoaduriaid-wcrain>

Cysylltiadau diogelu

Defnyddiwch y ddolen hon os oes angen unrhyw wybodaeth neu gymorth arnoch i ddiogelu plant ac oedolion:

www.caerffili.gov.uk/Search-Result?searchtext=Caerphilly+to+newport&page=37&lang=cy-gb

Ar gyfer unrhyw risgiau neu bryderon brys dylech ffonio 999 bob amser

ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill)

I gefnogi eich gwestai gyda Saesneg fel ail iaith neu iaith dramor, defnyddiwch y ddolen hon:

www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/Adult-learning/Courses?lang=cy-gb

Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac mae ar gael mewn ardaloedd wedi'u targedu i gefnogi teuluoedd i roi dechrau teg mewn bywyd i blant 0–3 oed. Gall hyn fod yn ddefnyddiol i'ch gwestai os oes ganddynt blentyn 0 -3 oed.

Mae'r ddolen ganlynol yn rhoi rhagor o fanylion:

www.caerphilly.gov.uk/Services/Children-and-families/How-to-get-help-and-support/Flying-Start?lang=cy-gb

Cyngor ar Bopeth

Dyma'r ddolen gyswllt ar gyfer Cyngor ar Bopeth yng Nghaerffili os oes angen cymorth arnoch gydag unrhyw wybodaeth neu wasanaethau: <https://www.citizensadvicecbg.org.uk/>

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)

Mae GAVO yn darparu cymorth a chyngor i grwpiau cymunedol a gwirfoddol, mentrau cymdeithasol yn ogystal ag unigolion sydd â diddordeb mewn helpu a chefnogi eu cymunedau. Mae GAVO hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol mewn cymunedau ledled Gwent.

Defnyddiwch y ddolen hon i gael rhagor o

wybodaeth: www.caerphilly.gov.uk/Services/Benefits-and-grants/GAVO-grants/GAVO-support-and-advice?lang=cy-gb

Cysylltiadau Defnyddiol

Llinell Gymorth Iechyd Meddwl CALL [Llinell Gymorth Iechyd Meddwl CALL i Gymru Gwasanaeth Gwrando a Chefnogi Cyfrinachol](#)

Cyngor Ffoaduriaid Cymru [Hafan - Cyngor Ffoaduriaid Cymru \(wrc.cymru\)](#)

Oasis (Caerdydd) [Oasis Caerdydd](#)

Diverse Cymru (Cymru) [Hafan Diverse Cymru | Diverse Cymru](#)

Y Noddfa (Casnewydd) [The Sanctuary - The Gap](#)

Displaced People in Action (Cymru) [DPIA - Cefnogi Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yng Nghymru ers 2001](#)

EYST (Cymru) [EYST - Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru - Cefnogi pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n byw yng Nghymru.](#)

Y Groes Goch Brydeinig (Cymru) [Cysylltwch â'ch gwasanaeth ffoaduriaid lleol \(redcross.org.uk\)](#)

Llinell Gymorth BAME Cymru (Cymru) [Llinell Gymorth BAME Cymru](#)

Rhestr Wirio Awgrymedig ar gyfer Gwesteiwyr i gefnogi Gwesteion

Ar gyfer unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Chyngor Caerffili:

CymorthWcraïn@caerffili.gov.uk

DIWRNOD UN	
CWRDD A CHYFARCH NEWYDD-DDYFODIAID (EFALLAI GYDAG YCHYDIG O DEGANAU I UNRHYW BLANT)	
SICRHEWCH EICH BOD WEDI CYSYLLTU Â CHYNGOR CAERFFILI I ROI GWYBOD IDDYNT FOD EICH GWESTEION WEDI CYRRAEDD.	
DEFNYDDIWCWCH Y CANLLAWIAU AR GYFER GWESTEION A DDARPERIR GAN GYNGOR CAERFFILI I ESBONIO'R PROSESAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R TALIAD ARIAN PAROD CYCHWYNNOL A DDARPERIR IDDYNT SEF £300 Y PEN. MAE HYN ER MWYN HELPU I'W CEFNOGI HYD NES Y GWNEIR CAIS AM UNRHYW FUDD-DALIADAU ANGENRHEIDIOL.	
DANGOSWCH EICH GWESTAI O AMGYLCH EICH EIDDO A THYNNU SYLW AT UNRHYW RISGIAU FEL GRISIAU SERTH, PYLLAU HEB EU GORCHUDDIO, TANAU HEB EU GWARDHOD NEU UNRHYW BETH RYDYCH CHI'N EI YSTYRIED YN RISG. RHOWCH SYLW ARBENNIG OS YDYCH YN CROESAWU TEULU GYDA PHLANT.	
EGLURWCH SUT I DDEFNYDDIO UNRHYW BETH YN Y GEGIN NEU'R YSTAFELL YMOLCHI YN ENWEDIG OS BYDDANT YN DARPARU EU PRYDAU EU HUNAIN.	
SICRHEWCH EICH BOD YN ESBONIO SUT Y GALL EICH GWESTAI GAEL MYNEDIAD I FANNAU ANGENRHEIDIOL O'CH CARTREF AC UNRHYW DREFNIADAU O RAN ALLWEDDI NEU GLOI'R EIDDO.	
OS OES GENNYCH WI-FI CARTREF DANGOSWCH I'CH GWESTEION SUT I GAEL MYNEDIAD ATO. EFALLAI FOD GANDDYNT FFONAU CLYFAR NEU LINIADURON. BYDD Y CYNGOR YN SICRHAU BOD GAN BAWB SY'N CYRRAEDD FFORDD O GADW MEWN CYSYLLTIAD Â'U TEULU A'U FFRINDIAU AC Y GALLANT HELPU EU HUNAIN DRWY GAEL CYMORTH AR WEFANNAU.	
GOFYNNWCH A OES GAN EICH GWESTEION UNRHYW OFYNION DIETEGOL (OS FELLY, RHOWCH GYNGOR). NID YW'N OFYNNOL I CHI DDARPARU BWYD I'CH GWESTEION.	
DYLECH WNEUD NODYN O ENWAU/CYFENW/DYDDIAD GENI HOLL AELODAU'R TEULU YN GYWIR AT DDIBENION GWEINYDDOL.	
OS GWELWCH FOD GAN EICH GWESTEION ANGHENION PENODOL SY'N GYSYLLTIEDIG AG ANABLEDD NEU FREGUSRWYDD ARALL, NAD OEDDECH YN YMWBODOL OHONYNT, CYSYLLTWCH Â'R CYNGOR AR Y CYFEIRIAD E-BOST UCHOD AR UNWAITH NEU FFONIWCH 'GOFALU AM GAERFFILI' AR 01443 811490. MEWN ARGYFWNG YN UNIG Y TU ALLAN I ORIAU, FFONIWCH 0800 3284432.	
OS YW EICH GWESTEION YN YSMYGWYR, AC NAD YDYCH CHI, ESBONIWCH EICH BARN YN GWRTAIS A CHYNNIG MAN IDDYNT LLE GALLANT YSMYGU.	

SICRHEWCH FOD EICH GWESTEION WEDI'U COFRESTRU GYDA MEDDYG TEULU A GWIRIWCH A OES ANGEN UNRHYW FEDDYGINIAETH FRYS. BYDD Y BWRDD IECHYD YN CYNNIG ARCHWILIADAU SGRINIO AC IECHYD I BAWB SY'N CYRRAEDD YNGHYD AG IMIWNEIDDIADAU DAL I FYNY OS BYDD ANGEN. EGLURWCH SUT I FFONIO 999 MEWN ARGYFWNG. FEL YN Y RHAN FWYAF O WLEDYDD EWROP, DEFNYDDIR 112 YN WCRÁIN.	
PETHAU ERAILL I'W HYSTYRIED YN EITHAF CYFLYM WEDI IDDYNT GYRRAEDD	
CEFNOGWCH EICH GWESTEION I GOFRESTRU AM FUDD-DALIADAU A SICRHAU EU BOD WEDI DERBYN EU TALIAD ARIAN PAROD O £300.	
DARPARWCH GYSYLLTIADAU FFÔN ALLWEDDOL Y CREDWCH Y GALLAI FOD EU HANGEN ARNYNT. DYLAI GWASANAETHAU CYHOEDDUS DDEFNYDDIO'R GWASANAETH CYFIEITHU 'LANGUAGE LINE' AR GYFER UNRHYW UN NAD YW'N YN GALLU SIARAD SAESNEG.	
CEFNOGWCH EICH GWESTEION I GOFRESTRU AR GYFER TRWYDDED BRESWYLIO FIOMETRIG (BRP), A RHIF YSWIRIANT GWLADOL.	
Y DIWRNOD AR ÔL CYRRAEDD	
ESBONIWCH DDIWRNODAU CASGLU GWASTRAFF A BETH SY'N MYND YM MHA FINIAU	
DYLECH WNEUD NODYN O ENWAU/CYFENW/DYDDIAD GENI HOLL AELODAU'R TEULU YN GYWIR AT DDIBENION GWEINYDDOL.	
DANGOSWCH IDDYN NHW SUT I LYWIO GWEFAN NODDFA I DDYSGU AM GYMRU A'U HAWLIAU. MAE CYFIEITHIAD I'R WCREINEG O'R HOLL DDEUNYDDIAU AR Y WEFAN https://sanctuary.gov.wales/	
YR ARDAL GYFAGOS: EWCH Â'CH GWESTEION I'R AMWYNDERAU LLEOL CANLYNOL:	
ARCHFARCHNAD FAWR AGOSAF (e.e. MORRISONS, ASDA ac ati)	
ARCHFARCHNAD DISGOWNT (e.e. ALDI) A POUND SHOP	
MEDDYGFA A FFERYLLYDD	
SAFLE BWS AGOSAF	
SWYDDFA'R POST	
LLYFRGELL / CANOLFANNAU CYMUNEDOL /CANOLFANNAU HAMDDEN	
GORSAF DRÊN	
GORSAF YR HEDDLU	
GWEDDILL Y MIS CYNTAF AR ÔL IDDYNT GYRRAEDD	
TEITHIAU PELLACH O AMGYLCH YR ARDAL GYFAGOS AC ESBONIAID O'R RHWYDWEITHIAU TRAFNIDIAETH EHANGACH SYDD AR GAEL LEDLED Y DEYRNAS UNEDIG. SYLWCH FOD TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS AM DDIM AR GAEL YNG	

NGHYMRU AM Y CHWE MIS CYNTAF AR ÔL CYRRAEDD FEL Y NODIR YN Y PECYN CROESO I WESTEION.	
DYLID CYNEFINO'R TEULU Â THRAFNIDIAETH GYHOEDDUS DRWY FYND Â NHW AR DAITH AR Y BWS A'R TRÊN I GASNEWYDD A CHAERDYDD.	
DYLID GWNEUD CYSWLLT CYCHWYNNOL Â DARPARWYR GWASANAETHAU ALLWEDDOL (ADDYSG, BWRDD IECHYD, YR HEDDLU)	
DYLID CAEL TALEBAU CYCHWYN IACH I BLANT O DAN 5 OED	
GOFYNNWCH A OES GAN EICH GWESTEION DDIDDORDEB MEWN UNRHYW GREFYDD BENODOL (OS FELLY, RHOWCH GYNGOR)	
ADDYSGWCH EICH GWESTEION AM REOLAU A CHYFREITHIAU YNG NGHYMRU YNGHYLCH YSMYGU, SBWRIEL, ALCOHOL, POERI, ac ati.	
COFRESTRWCH GYDA'R LLYFRGELL LEOL	
EWCH GYDA'CH GWESTEION (AR YR YMWELIAD CYNTAF) I LEOLIAD DOSBARTHIADAU SAESNEG (ESOL)	
TREFNWCH APWYNTIAD GYDA GYRFA CYMRU I GREU CV	
MISOEDD DAU I DDEUDDEG AR ÔL CYRRAEDD	
GOFYNNWCH A OES GAN EICH GWESTEION DDIDDORDEB MEWN UNRHYW CHWARAEON / HOBIAU PENODOL (OS FELLY, RHOWCH GYNGOR)	
GOFYNNWCH A OES GAN EICH GWESTEION DDIDDORDEB MEWN GWIRFODDOLI (OS FELLY, RHOWCH GYNGOR)	
CEFNOGWCH EICH GWESTEION TRWY ROI CYMORTH GYDA MYNEDIAD AT WAITH: RHOWCH HELP GYDA CHWILIO AM SWYDDI, TREFNU CYRSIAU SGILIAU CYFWELD A CHWBLHAU CV	
YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED YN GYFFREDINOL	
TASGAU PARHAUS DRWY GYDOL Y CYFNOD	
CADWCH MEWN CYSYLLTIAD Â'R CYNGOR OS OES GENNYCH UNRHYW BROBLEMAU, PRYDERON NEU YMHOLIADAU	
COFIWCH FOD YR HYN RYDYCH CHI'N EI WNEUD YN ANHYGOEL O HAEL. EIN NOD YW RHOI CYMAINT O GEFNOGAETH AG Y GALLWN AR HYD Y FFORDD I CHI.	



Cartrefi i Wcráin – Gwiriadau noddwyr

Diben y gwiriadau hyn yw cadarnhau addasrwydd y noddwr/gwesteiywr ac aelodau perthnasol o'r teulu. Gwiriadau i'w cynnal ar bob aelod o'r cartref, gan gynnwys: Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Manylach (DBS), Cofnodion Arbenigol yr Heddlu, gwiriadau Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC), Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol, Tai (gan gynnwys arolygiad o'r cartref), Adrannau Addysg, lle bo hynny'n berthnasol, ac unrhyw wiriadau perthnasol eraill mewn cysylltiad â chynllun cartrefi i Wcráin gyfer lletya/noddi.

Enw Llawn y Noddwr:	Enw Llawn y Noddwr:
Rhywedd:	Rhywedd:
Dyddiad Geni:	Dyddiad Geni
Enw Blaenorol:	Enw Blaenorol:
Cyfeiriad Presennol:	Cyfeiriad Presennol:
Cyfeiriadau Blaenorol yn y 5 mlynedd diwethaf:	Cyfeiriadau Blaenorol yn y 5 mlynedd diwethaf:
Aelodau eraill o'r Aelwyd: Enw	Dyddiad Geni

Sut byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

O dan y cynllun Cartrefi i Wcráin, gall eich gwybodaeth gael ei phrosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn cefnogi pobl o Wcráin gyda; Tai, Addysg, Iechyd ac integreiddio i'r gymuned, yn ogystal â chefnogi'r bobl sy'n gwirfoddoli i noddi pobl Wcráin a'u teuluoedd.

Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn cynnal asesiad i sefydlu pa gymorth y gallwn ei roi ar waith ar gyfer pobl Wcráin; yn ogystal ag asesu aelwyd y Noddwr. Er mwyn darparu'r cymorth sydd ei angen, efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu ag adrannau'r cyngor ac asiantaethau eraill. Byddwn yn cadw cofnod o'r cymorth y byddwn yn ei ddarparu a gallwn gynnal adolygiadau rheolaidd i weld a yw'r rhaglen yn gweithio, neu a oes angen inni newid unrhyw beth i helpu. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cynlluniau cymorth ar ôl cyrraedd sy'n cynnwys sefydliadau fel gwasanaethau iechyd a chymorth.

Y sail gyfreithlon dros brosesu eich gwybodaeth fydd Erthygl 6 (1)(c) - Rhwymedigaeth gyfreithiol - i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â darparu tai, addysg, cymorth budd-daliadau ac ati ac Erthygl 6(1)(e) - i gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer ein swyddogaethau swyddogol - i ddarparu'r lefel briodol o gymorth. Dim ond am y cyfnod sy'n angenrheidiol y bydd y Cyngor yn cadw eich data personol a bydd yn dilyn safonau sefydliadol ac Awdurdod Lleol yn y maes hwn. Ar ddiwedd y cyfnod cadw bydd y Cyngor yn dinistrio neu'n gwaredu'r data yn ddiogel yn unol â'r amserlenni cadw.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i weld y wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch a'r hawl i achwyno os ydych yn anfodlon â'r ffordd mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydyn ni'n prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch y ddolen hon:

www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Homes-for-Ukraine-privacy-notice.aspx

Ffeithiau am Wcráin



- Wcráin yw'r ail wlad fwyaf yn Ewrop o ran cyfanswm ei harwynebedd – sy'n cwmpasu 603.55 km sgwâr (neu 233 milltir sgwâr – ddwywaith maint yr Eidal!)
- Pan ofynnir i bobl feddwl am fwyd Wcráin, mae llawer o bobl yn debygol o ddweud cyw iâr kiev (nad oedd wedi'i ddyfeisio yn Wcráin o gwbl, mae'n debyg), ond borscht yw pryd cenedlaethol Wcráin mewn gwirionedd, cawl coch nodedig wedi'i wneud o fetys a chig eidion.
- iaith swyddogol Wcráin, wrth gwrs, yw Wcreineg, fodd bynnag, mae 20 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad yn Wcráin. Mae 18% o Wcreiniaid yn siarad Saesneg.

- Mae Wcráin yn gartref i weithgaredd un o'n hoff wyliau – wyau Pasg! Wedi'u lliwio'n wreiddiol gyda phatrwm gan ddefnyddio cwyr a lliw, gallwn ddiolch i Wcráin am ein hoff ddanteithion addurniadol.
 - Yn mesur 2,061 metr, Mynydd Hoverla, rhan o Fynyddoedd Carpathia sy'n disgyn i Orllewin Wcráin, yw'r pwynt uchaf yn Wcráin ac yn lleoliad poblogaidd ar gyfer chwaraeon eithafol.
 - Gelwir Wcráin yn aml yn "Fasged bara Ewrop" oherwydd mae ganddi'r amodau delfrydol ar gyfer tyfu gwenith ac mae'n un o'r prif gynhyrchwyr.
 - Mae Wcráin yn ffinio â'r Môr Du i'r de, ac yma mae ganddynt reolaeth dros Ynys Zymiinyi, a adwaenir yn gyffredin fel Ynys y Neidr oherwydd y trigolion. Dyma'r unig gartref naturiol i'r 'Wiber pen Gwaywffon Euraidd' sydd mewn perygl difrifol, a gafodd ei ynysu uno yn yr Oes lâ ddiwethaf.
- Ffynhonnell: <https://www.worldvision.org.uk/about/blogs/facts-about-ukraine/>
- O ran amser, mae Wcráin 2 awr ar y blaen i amser y Deyrnas Unedig
 - Yr arian cyfred yn Wcráin yw hryvnia Wcráin

Diolch i chi am eich cymorth!

